Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2013

9.15 – 2.00

Ystafell Cledwyn 2 a 3, Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R Merfyn Jones (Cadeirydd) Andrew Green, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Sylwedyddion:	Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Cymru Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) (o 10.20)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Hefyd yn Bresennol:	Meirion Prys Jones, Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau'r Coleg (Eitem 5 yn unig) Mererid McDaid, Morgan Cole, Cyfreithwyr y Coleg (tan y sesiwn hyfforddi)
Ymddiheuriadau:	Rachel Cable, sylwedydd AUC Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Stephanie Lloyd, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau ac yn arbennig i'r Athro Jerry Hunter, Prifysgol Bangor, Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth a Dr Catrin Thomas, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant fel Cyfarwyddwyr Sector Addysg Uwch, a Jacob Ellis, sylwedydd UCMC i'w cyfarfod cyntaf. 1.2 Estynnwyd croeso i Mererid McDaid o Morgan Cole (Cyfreithwyr y Coleg) a fyddai'n arwain y sesiwn hyfforddi ar gyfer Cyfarwyddwyr. 1.3 Nododd Linda Wyn, nad oedd am ymgeisio am dymor pellach fel Cyfarwyddwr Annibynnol ac Is-Gadeirydd, a diolchwyd iddi am ei chyfraniad gwerthfawr ar hyd y cyfnod. Nodwyd y byddai'n ymuno â'r Bwrdd Academaidd fel aelod addysg bellach. 1.4 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. 1.5 Nodwyd mai Catherine Rees sydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Coleg yn absenoldeb Dr Gwennan Schiavone.	Penodi Cyfarwyddwr Annibynnol	Erbyn Gwanwyn 2014
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nodwyd bod trefn newydd wedi ei chyflwyno lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi.		
3. Derbyn ac	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd		

ystyried cofnodion cyfarfod 19 Mehefin 2013	ar 19 Mehefin 2013.		
4. Gohebiaeth	4.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth ar gyfer y Bwrdd Cyfarwyddwyr.		
5. Penodi / ail-benodi Cadeirydd y Bwrdd **(BC/13/03/05)**	<u>Trafodaeth Gaeëdig</u> 5.1 Ar gyfer yr eitem hon gadawodd y Cadeirydd, Swyddogion y Coleg a'r holl sylwedyddion, yr ystafell er mwyn i'r Cyfarwyddwyr ystyried y mater. Yn bresennol ar gyfer y drafodaeth oedd y Cyfarwyddwyr, sef Dr Hefin Jones, Yr Athro Jerry Hunter, Dr Catrin Thomas, Dr Rhodri Llwyd Morgan, Geraint James, Linda Wyn, Andrew Green a Ieuan Wyn. Hefyd yn bresennol oedd Ysgrifennydd y Coleg, Catherine Rees a chyfreithiwr y Coleg, sef Mererid McDaid o Morgan Cole. Ymunodd Meirion Prys Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau â'r cyfarfod. Cadeiriwyd y rhan hon o'r cyfarfod gan Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, Linda Wyn. 5.2 Cafwyd cyflwyniad gan Meirion Prys Jones ar argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i fabwysiadu trefn ffurfiol ar gyfer penodi Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Gadawodd Meirion Prys Jones y cyfarfod yn syth ar ôl ei gyflwyniad. 5.3 Penderfyniad y Cyfarwyddwyr oedd i fabwysiadu gweithdrefn ffurfiol ar gyfer penodi Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ac y byddai'r Pwyllgor Penodiadau yn gyfrifol am hysbysebu yn agored am Gadeirydd i'r Bwrdd ar ddiwedd bob tymor o dair blynedd. 5.4 Cytunodd Catherine Rees i gylchredeg Cylch Gorchwyl y Pwyllgor	Ysgrifennydd i gylchredeg	Cyn Nadolig 2013

	Penodiadau i'r Cyfarwyddwyr i gynnwys y drefn ar gyfer penodi Cadeirydd, yn ogystal â swydd-ddisgrifiad drafft y Cadeirydd ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd. Ar y pwynt hwn dychwelodd gweddill y swyddogion a sylwedyddion i'r cyfarfod.		
6. Materion Cyfansoddiadol **(BC/13/03/06)**	6.1 Cyflwynwyd diweddariad gan y swyddogion ar nifer o faterion yr oedd angen i'r Bwrdd eu cymeradwyo. 6.2 Derbyniwyd a chymeradwywyd penodi'r Athro Jerry Hunter, Dr Rhodri Llwyd Morgan a Dr Catrin Thomas i weithredu fel cyfarwyddwyr sefydliadol hyd nes i'w penodiad gael ei chadarnhau yng nghyfarfodydd 18/19 Chwefror 2014. Yn ogystal cytunwyd fod Dr Rhodri Llwyd Morgan a'r Athro Jerry Hunter, sydd wedi eu penodi am weddill tymor Cyfarwyddwyr oedd i ymddeol yn 2014, yn gymwys i wasanaethu am ddau dymor llawn bellach, o dair blynedd yr un. 6.3 Nodwyd y sefyllfa ynghylch penodi / ail-benodi Cyfarwyddwyr Annibynnol yn sgil tymhorau Geraint James a Linda Wyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2014. Nodwyd fod y Coleg wedi hysbysebu'n allanol ar gyfer y ddwy sedd ar y Bwrdd a chynhelir cyfweliadau ym mis Rhagfyr 2013. 6.4 Nodwyd trefniadau'r Llys a'r Cynulliad yng Nghaerfyrddin ar 18 Chwefror 2014. Nodwyd ymhellach mai Meirion Prys Jones a fyddai'n annerch y Llys a chyflwynir Gwobr Goffa Dr Eilir Hedd Morgan am y tro cyntaf.		
7. Enwebiadau: Cymrodyr er Anrhydedd 2014	7.1 Yn dilyn proses ffurfiol lle gwahoddwyd enwebiadau gan aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r Bwrdd Academaidd cymeradwywyd yr enwau canlynol i'w hanrhydeddu fel Cymrodyr er Anrhydedd ar gyfer 2014 sef Dr Alison Allan, Cennard Davies, Yr Athro Elan Closs		

	Stephens a Dr Cen Williams. 7.2 Nodwyd ymhellach bod hwn yn fater cyfrinachol nes i'r unigolion gadarnhau eu parodrwydd i dderbyn y cymrodoriaethau. Byddai'r Coleg yn cyhoeddi datganiad swyddogol i'r wasg tuag wythnos cyn y Cynulliad Blynyddol. 7.3 Yn unol â'r drefn arferol, nodwyd y bydd aelodau o Fwrdd y Cyfarwyddwyr neu'r Bwrdd Academaidd yn cyflwyno'r Cymrodyr er Anrhydedd yn y Cynulliad ar 18 Chwefror 2014.		
8. Sesiwn Hyfforddi	8.1 Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar y thema 'Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr' gan Mererid McDaid o Morgan Cole, Cyfreithwyr y Coleg. 8.2 Diolchwyd yn fawr iddi am ei chyflwyniad gwerthfawr. 8.3 Cytunwyd i gylchredeg copi o'r cyflwyniad at aelodau'r Bwrdd.	Swyddogion i gylchredeg	Cyn Nadolig 2013
9. Adolygiad ar Weithrediadau'r Bwrdd **(BC/13/03/09)**	9.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar yr elfennau hynny o Gynllun Gweithredu'r Bwrdd yr oedd modd i'r swyddogion eu datblygu. 9.2 Argymhellwyd y dylid neilltuo amser ar gyfer trafod ac amlinellu nodau ac amcanion y Bwrdd ar gyfer 2013/14 yn ogystal â derbyn cyflwyniad ar ddata a thargedau gan y Cofrestrydd yng nghyfarfod mis Chwefror. 9.3 Yn sgil trafodaeth ynghylch cynllunio strategol, data a thargedau nododd Dr Cliona O'Neill, o'r Cyngor Cyllido, y byddai'r gwerthusiad sydd yn yr arfaeth yn cynorthwyo'r Coleg gyda'i gynllunio. Nododd bod disgwyl i'r ymgynghorwyr gyflwyno eu canfyddiadau i'w trafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2014.	Neilltuo amser ar gyfer trafod amcanion y Bwrdd a chyflwyniad ar ddata Derbyn cyflwyniad gan yr ymgynghorwyr	19 Chwefror 2014 18 Mehefin 2014

10. Adroddiad y Prif Weithredwr **(BC/13/03/10)**	10.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr. Esboniwyd mai pwrpas y drefn newydd hon yw sicrhau bod Cyfarwyddwyr yn derbyn gwybodaeth am ystod eang o ddatblygiadau heb orfod treulio amser sylweddol yn y cyfarfodydd yn adrodd arnynt. 10.2 Diweddariadau ar faterion perthnasol yn codi o gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Mehefin 2013: • <u>Amserlen y gwerthusiad o weithgareddau'r Coleg.</u> Adroddwyd bod dau gyfarfod wedi eu cynnal gyda swyddogion CCAUC i drafod hyn. • <u>Perthynas y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch</u>. Nodwyd y bwriedir llunio dogfen weithredol rhwng y Coleg ac Addysg Uwch Cymru fel canllaw ar gyfer cynnal a datblygu'r berthynas. • <u>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon</u>. Adroddwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC ar ddiwedd Gorffennaf ond ni chafwyd ymateb hyd yma. • <u>Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru.</u> Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal er mwyn cytuno ar drefniadau i gynnal prosiectau peilot yn y sefydliadau addysg bellach. • <u>Gwyddoniadur Cymru</u>. Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa. 10.3 Datblygiadau cyfredol eraill: • <u>Cynllunio Academaidd a Niferoedd Myfyrwyr.</u> Cafwyd adroddiad llafar gan y Cofrestrydd ar y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch targedau. Nodwyd, ar hyn o bryd, bod nifer o'r targedau a osodwyd i'r Coleg ac i'r sector yn heriol iawn ac y byddai cyfle i gael trafodaeth lawn ar hyn yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd. Yn y cyfamser mae gwaith yn digwydd i gasglu data o wahanol ffynonellau megis UCAS, HESA a CBAC. • <u>Trefniadau Dyfarnu Grantiau</u>. Adroddwyd y byddai Andrew	Cylchredeg papur HCA i'r Cyfarwyddwyr newydd DT i ystyried Dylan Phillips i gylchredeg yr argymhellion	Cyn Nadolig 2013 Erbyn Chwefror 2014 Cyn Nadolig 2013

	Green yn cadeirio'r Paneli Dyfarnu ar gyfer y Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil. Nodwyd yr amserlen ar gyfer cylchredeg argymhellion Paneli Dyfarnu'r Cynllun Staffio i'r Cyfarwyddwyr ac i dderbyn sylwadau ganddynt. Yn amodol ar gytundeb unfrydol y Cyfarwyddwyr i'r argymhellion byddai'r penderfyniadau yn cael eu rhannu gyda'r sefydliadau cyn y Nadolig. • Cynhadledd Ryngwladol y Coleg. Nododd y Cofrestrydd fod amser o hyd i gyflwyno papurau ar gyfer y Gynhadledd a gynhelir ar 1-3 Gorffennaf 2014. 10.4 Risgiau a chyfleoedd: • Derbyniwyd y fersiwn diweddaraf o Gofrestr Risg y Coleg yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio ar 24 Hydref. • Yn dilyn awgrym gan aelod o'r Bwrdd, cytunwyd y dylid gosod goleuadau traffig neu saethau lliw i nodi statws risgiau yn y Gofrestr Risg. 10.5 Adroddiadau ar weithgareddau (Mehefin – Tachwedd 2013): • Derbyniwyd rhestr, er gwybodaeth, o weithgareddau a chyfarfodydd a fynychwyd gan y Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod 20 Mehefin hyd 15 Tachwedd 2013.		
11. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	11.1 Eglurwyd mai eitem newydd yw hon sy'n rhoi'r cyfle i Gyfarwyddwyr gyflwyno adroddiad llafar byr ar unrhyw weithgareddau penodol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Coleg y maent wedi cyflawni ers y cyfarfod diwethaf. 11.2 Cafwyd adroddiad llafar gan Andrew Green ar Dasglu Adnoddau Digidol Ar-lein Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd fis Chwefror 2013 gan y Cynulliad. Bydd argymhellion y gweithgor a gyhoeddir cyn diwedd y flwyddyn ynghylch dysgu agored ar-lein o ddiddordeb i'r Coleg.		

	11.3.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Ieuan Wyn yn dilyn cyfarfod o'r Grŵp Addysg a Dilyniant a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref 2013. Cyfeiriwyd at strategaeth gyfathrebu'r Coleg, sy'n cynnwys targedu disgyblion o ardaloedd difreintiedig ac o oed CA3 ymlaen. 11.3.2 Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i dderbyn cyflwyniad gan Reolwr Cyfathrebu'r Coleg yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd, yn ogystal, i ystyried potensial cynnal prosiectau peilot mewn tair ardal benodol er mwyn ystyried ffyrdd o gryfhau dilyniant rhwng sectorau addysg, ac i weithio gyda myfyrwyr ysgol o flwyddyn 7 ymlaen. Cytunodd y swyddogion i ystyried hyn ac i gyflwyno argymhellion ar y ffordd ymlaen yn y cyfarfod nesaf. 11.4 Cafwyd adroddiad llafar gan Jacob Ellis, yn absenoldeb Stephanie Lloyd, ar faterion myfyrwyr. Cyfeiriodd at: i. Sefydlu siarter ieithyddol i wella darpariaeth gan gynnwys un swyddog sabothol ym mhob sefydliad sy'n sicrhau cysondeb ar draws pob Undeb. ii. Rhwydwaith cyngor Swyddogion Iaith sy'n sicrhau y byddant yn ymwybodol o faterion myfyrwyr yn genedlaethol. iii. UCMC wedi sefydlu darpariaeth cyfieithu ar gyfer yr undebau. iv. Cryfhau'r bartneriaeth ag addysg bellach. v. Hyfforddiant llwyddiannus i gynrychiolwyr myfyrwyr y Coleg a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2013. 11.5 Diolchwyd am yr adroddiadau cynhwysfawr.	Cyflwyno Strategaeth Gyfathrebu i'r Bwrdd	19 Chwefror 2014
12. Cynllunio Strategol **(BC/13/03/12)**	12.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr ar yr amserlen ar gyfer llunio Cynllun Strategol newydd y Coleg ar gyfer y cyfnod 2014/15 hyd 2018/19. 12.2 Nodwyd yr amserlen a fyddai'n rhoi'r cyfle i'r Bwrdd ystyried cynllun drafft yng nghyfarfod 19 Chwefror 2014 cyn cymeradwyo'r		

	cynllun terfynol ar 18 Mehefin 2014. 12.3 Yn sgil y drafodaeth flaenorol ar weithrediadau'r Bwrdd ategwyd y bwriad o neilltuo bore cyfan ar gyfer trafod y Cynllun Strategol ynghyd ag amcanion y Bwrdd yng nghyfarfod fis Chwefror 2014. 12.4 Cymeradwywyd y broses a'r amserlen ar gyfer y Cynllun Strategol.	Neilltuo bore ar gyfer y Cynllun Strategol	19 Chwefror 2014
13. Cynllun Gweithredu 2013/14 **(BC/13/03/13)**	13.1 Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar gynnydd yn erbyn y targedau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013/14. 13.2 Eglurwyd bod y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar y Cynllun Strategol gwreiddiol a luniwyd yn 2011. Yn sgil hynny mae nifer o'r targedau eisoes wedi eu cyflawni. 13.3 Awgrymwyd gan aelod o'r Bwrdd y gallai'r Coleg ddiwallu anghenion y farchnad gyflogaeth drwy symbylu creu Asiantaeth Cyflogi Cymraeg a chytunwyd i drafod y syniad gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.	Trafod y mater gyda Swyddfa'r Comisiynydd	Rhagfyr 2013
14. Materion Staffio	14.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Ysgrifennydd y Coleg ar y Pwyllgor Staffio a gyfarfu'r noson gynt (26 Tachwedd) a materion staffio eraill. 14.2 Nodwyd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo dull newydd o werthuso swyddi staff cyflogedig y Coleg ac wedi mabwysiadu polisi a gweithdrefn. Nodwyd hyn gan y Bwrdd. 14.3 Nodwyd fod y Coleg wedi mabwysiadu cynllun hyfforddi a datblygu sy'n rhan o weithio tuag at safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Adroddwyd y byddai hyfforddiant penodol i reolwyr ac y byddai arolwg staff yn cael ei ail-adrodd fis Mawrth 2014. Nodwyd y gobaith o gofrestru ar gyfer y safon ym mis Medi 2014 gyda'r asesiad yn 2015.		

	14.4 Nodwyd fod Rhian Dafydd, Lowri Johnston ac Iona Morgan wedi gadael y Coleg. 14.5 Nodwyd fod Lowri Wyn Bulman, Joanna Evans a Catrin Williams wedi dychwelyd o'u cyfnodau mamolaeth. 14.6 Estynnwyd llongyfarchiadau i Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg ac Uwch Reolwr, ar enedigaeth efeilliaid. 14.7 Nodwyd penodiadau Manon Llwyd (Swyddog Datblygu: Marchnata a Chyfathrebu) a Dr Angharad Watkins (Golygydd). 14.8 Nodwyd newidiadau i'r tîm gweinyddol gan gynnwys penodi Rhinedd Williams yn Rheolwr Swyddfa yng Nghaerfyrddin ac ail-ddiffinio cyfrifoldebau'r swyddogion datblygu sydd yn ymwneud â gwaith academaidd, sef Rhian Davies, Arwel Lloyd a Catrin Williams.		
15. Materion Cyllid **(BC/13/03/15)**	15.1 Cafwyd cyflwyniad gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar Gyfrifon Archwiliedig y Coleg ar gyfer 2012/13. 15.2 Cymeradwywyd y cyfrifon yn unfrydol gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a chytunwyd i'w cyflwyno i gyfarfod Llys y Coleg ar 18 Chwefror 2014.		
16. Pwyllgor Archwilio **(BC/13/03/16)**	16.1 Cadarnhawyd penodiadau Dr Rhodri Llwyd Morgan a Dr Catrin Thomas fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio. 16.2 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 19 Mehefin a 25 Hydref 2013. 16.3 Cafwyd adroddiad llafar gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor ar y cyfarfod a gyfarfu'r noson gynt (26 Tachwedd). 16.4 Nodwyd bod y Pwyllgor wedi adolygu'r ffioedd a gynigir i		

	unigolion o'r tu allan i'r Bwrdd a fyddai'n gweithredu ar rai o bwyllgorau a phaneli dyfarnu'r Coleg, yn ogystal â chyfrannu at weithgareddau datblygu staff. 16.5 Nodwyd nad oedd yn briodol i'r Pwyllgor Archwilio ystyried mater ffi taladwy i aelodau allanol o'r Pwyllgor hwnnw ond cytunodd y Bwrdd i ychwanegu'r eitem hon at y rhestr.		
17. Bwrdd Academaidd	17.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf a 16 Hydref 2013. 17.2 Adroddodd y Deon ei fod wedi trefnu dyddiadau i ymweld â phob cangen ar draws Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd. 17.3 Ers cyfarfod 16 Hydref nodwyd fod cynrychiolydd o bob sefydliad yn ei dro yn rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Academaidd gan ddechrau gyda Dr Siân Wyn Siencyn o Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant ar 'Pobl, prosiectau, stwff a stiwdants'. 17.4 Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â llunio cynlluniau pynciol ar draws amrediad o feysydd a nodwyd bod targedau yn cael eu gosod oddi fewn i bob cynllun a fyddai'n bwydo i'r targed cenedlaethol. 17.5 Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi trafod prosesau ar gyfer amrywio lefel grantiau ar gyfer swyddi academaidd i adlewyrchu sefyllfaoedd a fyddai'n arwain at ddyrchafiadau. Mater i'r sefydliadau unigol yw cyflogaeth staff ond nodwyd y dylid ymgynghori'n llawn â'r Coleg os oes disgwyliad i'r Coleg adolygu lefel y grant yn dilyn dyrchafu aelod o staff a noddir gan y Coleg. Nodwyd hefyd y trefniadau ar gyfer ymgorffori cyfnodau sabothol oddi fewn i drefniadau gweithio staff a noddir gan y Coleg, yn unol â'r arfer yn y sefydliadau unigol. 17.6 Nodwyd yn ogystal ddatblygiadau ym maes Astudiaethau		

	Cyfieithu, gwaith y Pwyllgor Cydweithio Academaidd ac adolygiadau prosiectau strategol. 17.7 Nodwyd bod y Bwrdd Academaidd wedi cymeradwyo'r egwyddor o sefydlu gwobrau ar gyfer myfyrwyr a fyddai'n cydnabod cyfraniad arloeswyr addysg Gymraeg. 17.8 Nodwyd y byddai proses adolygu buddsoddiad y Coleg drwy'r Cynllun Staffio Academaidd yn dechrau yng ngwanwyn 2014. 17.9 Adroddwyd y byddai'r Coleg yn cyhoeddi cylchlythyr yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â chyllido prosiectau yn 2013/14. Byddai'r pwyslais ar brosiectau strategol sylweddol. 17.10 Nodwyd mai'r Athro Jerry Hunter a fyddai'n cadeirio'r Pwyllgor Ymchwil. 17.11 Cafwyd awgrymiad y dylai'r paneli pwnc fod mewn cysylltiad â chyflogwyr / cymdeithasau megis y Gymdeithas Wyddonol a'r Gymdeithas Feddygol. Nodwyd fod y Coleg eisoes yn cydweithio â'r Gymdeithas Ddysgedig. 17.12 Diolchwyd i'r Deon am ei gyflwyniad cynhwysfawr.	Cylchredeg adroddiad Astudiaethau Cyfieithu	Cyn Nadolig 2013
18. Materion yn codi	18.1 Nid oedd materion i'w codi.		
19. UFA	19.1 Cafwyd cais gan y myfyrwyr i ddiweddaru gwefan y Coleg ynghylch aelodaeth myfyrwyr ar bwyllgorau/paneli a sicrhaodd y Cofrestrydd fod hwn mewn llaw. 19.2 Cafwyd cais i ychwanegu eitem ar raglen weithredol y Coleg a sut y gall rhanddeiliaid gyfrannu at waith y Coleg ar agenda'r Llys fis Chwefror 2014. 19.3 Nodwyd yr angen i gylchredeg gohebiaeth drwy e-bost i	DT i wirio Agenda'r Llys	Cyn Nadolig 2013 18 Chwefror 2014 Cyn Nadolig 2013

	gymeradwyo lleihau aelodaeth rhanddeiliadol y Llys.	Cylchredeg gohebiaeth	
20. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	20.1 Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2014 yn y Llwyfan, Caerfyrddin. 20.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i Brifysgol Bangor am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.		